

CYNGOR SIR Y FFLINT
27 MEDI 2017

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mercher, 27 Mawrth 2017.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Brian Lloyd (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Glyn Banks, Sean Bibby, Chris Bithell, Sian Braun, Helen Brown, Clive Carver, Geoff Collett, Bob Connah, David Cox, Paul Cunningham, Jean Davies, Rob Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Andrew Holgate, Dave Hughes, Kevin Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Paul Johnson, Rita Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Tudor Jones, Colin Legg, Mike Lowe, Dave Mackie, Hilary McGuill, Billy Mullin, Ted Palmer, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Tony Sharps, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Owen Thomas, Martin White, David Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley

YMDDIHEURIADAU:

Cynghorwyr: Janet Axworthy, Haydn Bateman, Marion Bateman, Derek Butler, Richard Lloyd, Mike Reece ac Ian Roberts

YN BRESENNOL:

Prif Weithredwr; Swyddog Monitro; Prif Swyddog (Cymuned a Menter); Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant); Prif Swyddog (Newid Sefydliadol 2); Prif Swyddog dros dro (Addysg ac Ieuenctid); Arweinydd Perfformiad Strategol; Rheolwr Cyllid Strategaeth a Thechnegol; Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd; Hwylusydd Arolygu a Chraffu ac Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

27. CYFLWYNIADAU

I gydnabod llwyddiannau diweddar y Cyngor yng Ngwobrau Adeiladu Arbenigrwydd Cymru 2017:

- Cleient y Flwyddyn – enwebwyd gan Wates Residential i gydnabod gwaith partneriaeth ar Raglen Tai ac Adfywio Strategol (SHARP) y Cyngor; a
- Gwobr Cynaliadwyedd – wedi'i dyfarnu i Galliford Try, y contractwr a benodwyd gan y Cyngor i adeiladu Campws Dysgu Treffynnon.

Croesawodd y Cadeirydd y tîm SHARP a'r Tîm Moderneiddio Ysgolion i'r cyfarfod. Esboniodd y Prif Weithredwr fod y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus yn Seremoni Wobrwyo Adeiladu Arbenigrwydd Cymru (CEW) yn y Celtic Manor ddydd Gwener 14 Gorffennaf, gan ennill dwy wobwr. Dyfarnwyd y tîm SHARP gyda 'Gwobr Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru 2017 - Cleient y Flwyddyn – Enillydd Cyffredinol'. Cafodd Galliford Try eu dyfarnu yn y categori Cynaliadwyedd ar gyfer Campws Dysgu Treffynnon.

Dywedodd y Cynghorydd Bernie Attridge ei fod wedi bod yn anrhydedd iddo fod yn bresennol yn y seremoni wobrwyo ac amlinellodd y prosiectau ardderchog a oedd wedi'u rhoi yn yr un categori. Diolchodd i'r tîm cyfan ac Whaites am bartneriaeth ardderchog gyda'r Cyngor.

Llongyfarchwyd Galliford Try gan y Cynghorydd David Healey am eu gwobr. Dywedodd pan ymwelodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuencid â Champws Dysgu Treffynnon, cafodd ei syfrdanu, roedd yn meddwl bod yr ysgol yn gyflawniad anhygoel ac fe dalodd deyrnged i bawb a oedd ynghlwm wrth y gwaith creu.

28. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2017.

Ar bwynt o gywirdeb, gofynnodd y Cynghorydd Heesom bod y geiriau 'bod pryder nad yw'n ymddangos bod y sector preifat yn bodloni lefel y cyflenwad o dai sy'n ofynnol' yn cael eu cynnwys gyda'i sylwadau yng nghofnod rhif 23.

PENDERFYNWYD:

Yn amodol ar y diwygiad i gofnod rhif 23, 20 Mehefin 2017, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

29. DATGAN CYSYLLTIAD

Rhoddodd y Swyddog Monitro wybod y byddai cysylltiad personol yn cael ei gofnodi ar ran pob Aelod a oedd yn bresennol, a oedd yn aelodau o Gronfa Bensiynau Clwyd. Cymerodd y cyfle i atgoffa Aelodau o'r angen i gadw eu Ffurflenni Datgan Cysylltiad yn gyfredol, pe bai unrhyw newidiadau wedi digwydd ers eu hetholiad. Gellid gwneud hyn drwy lenwi 'Ffurflen C' a'i chyflwyno i Wasanaethau Democrataidd.

30. COFFÂD A THEYRNGEDAU I'R DIWEDDAR GYNGHORYDD RON HAMPSON

Arweiniodd Arweinydd y Cyngor y teyrngedau i'r diweddar Gynghorydd Ron Hampson. Siaradodd am ei ymrwymiad, ei ymroddiad a'r cariad a ddangosodd at ei deulu; i Rita, Michelle a Stephen a'r rhan weithredol a chwaraeodd ym mywyd y Cyngor ers y cychwyn. Siaradodd am ei awch am drafodaeth wleidyddol, ei ymrwymiad i'r Blaid Lafur a sut roedd yn ymgyrchydd ymroddedig a chwbl bresennol. Roedd yn frwd dros helpu pobl a chynrychioli anghenion pobl, ac roedd ar ei fwyaf hapus wrth siarad â phreswylwyr yn ei ward. Dywedodd ei fod yn ddiolchgar am y cyfle i fod wedi gwasanaethu ochr yn ochr â'r Cynghorydd Hampson ac y byddai'r Cyngor yn dlotach lle oherwydd ei farwolaeth drist.

Talodd y Cynghorwyr Martin White, Ron Davies, Neville Phillips, Mike Peers, Clive Carver, Brian Lloyd, Dennis Hutchinson, Patrick Heesom, Tony Sharps, Rita Johnson a Carol Ellis deyrngedau i'r Cynghorydd Hampson hefyd, gan siarad yn benodol am ei garedigrwydd, ei boblogrwydd, ei gyfeillgarwch a'i ymroddiad i breswylwyr Bwcle a'r golled enfawr ar ei ôl.

31. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Roedd copi o Gyhoeddiadau'r Cadeirydd wedi eu rhoi i'r holl Aelodau cyn y cyfarfod.

Rhoddodd y Cadeirydd sylwadau penodol ar Daith Baton y Frenhines ar gyfer Gemau'r Gymanwlad, a diolchodd i Theatr Clwyd am eu lletygarwch. Siaradodd am ymweliad Iarll Wessex â Theatr Clwyd a oedd wedi bod yn llwyddiant, ac angladd y Cynghorydd Ron Hampson, a'r nifer fawr a oedd yn bresennol.

32. DEISEBAU

Ni dderbyniwyd dim.

33. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Ni dderbyniwyd dim.

34. CWESTIYNAU

Ni dderbyniwyd dim.

35. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU YNGLŶN Â CHOFNODION Y PWYLLGOR

Esboniodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) bod cwestiwn wedi dod i law gan y Cynghorydd Heesom ar gofnodion Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a gynhaliwyd 16 Mai, 2017.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Patrick Heesom at gofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a gynhaliwyd 16 Mai, 2017. Cododd bryderon nad oedd y mater o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar welliannau A494/A55 wedi'u hystyried gan y Cyngor llawn neu wedi bod yn destun trafodaeth. Cododd bryder hefyd am argymhelliad Llywodraeth Cymru, y teimlodd nad oedd o fudd i ardal Sir y Fflint a gynrychiolwyd ganddo ef.

Gwahoddwyd Arweinydd y Cyngor i ateb y cwestiynau gan y Cynghorydd Heesom. O ran dull o weithredu, esboniodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) mai ei ddealltwriaeth ef oedd bod hysbysiad wedi'i roi i holi cwestiwn ar gyfer Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd. Pe esboniwyd mai i Arweinydd y Cyngor oedd y cwestiwn, ni fyddai'r cwestiwn wedi'i dderbyn gan na fyddai'n ateb y terfyn amser gofynnol, sef 10 diwrnod gwaith ar gyfer cwestiwn o'r fath.

Felly cafodd y cwestiwn ei wrthod.

36. RHYBUDD O GYNNIG

Daeth dau Rybudd o Gynnig i law:

(i) Y Cyngorwyr Bernie Attridge a Kevin Hughes:

“O ganlyniad i'r trychineb yn Stadiwm Hillsborough yn Sheffield 15 Ebrill 1989, bu farw 96 o bobl ddiniwed a adawodd eu cartrefi'r bore hwnnw i wyllo gêm bêl-droed.

Oherwydd bod y dyrfa wedi'i chamreoli, collodd y ffans hynny, a oedd rhwng 10 a 67 oed, eu bywydau. Fe wnaeth y trychineb hwn effeithio'n uniongyrchol ar deuluoedd yn Sir y Fflint.

Mae'n drist cymharu ymddygiad y rhai hynny a oedd mewn swyddi cyfrifol a'r cyhoedd yn ymddiriedaeth ynddynt, gyda'r urddas a'r dewrder a ddangoswyd gan deuluoedd y 96, sydd wedi parhau ers 1989 i frwydro dros gyfiawnder wrth ymdopi gyda cholled eu hanwyliaid. Ni all y Cyngor anwybyddu'r boen a'r trallod a achoswyd gan y celwyddau a'r sylwadau dirmygus a argraffwyd yn The Sun ar y pryd – yn enwedig i deuluoedd y 96.

Ni allwn ychwaith anwybyddu'r modd y bu i The Sun fod yn ystyfnig a gwrthod ymddiheuro'n gyhoeddus am y boen a achosodd, nes y daeth yn amlwg i'r papur newydd fod barn y cyhoedd yn gofyn am ymddiheuriad o'r fath.

26 Ebrill 2016, dyfarnodd y rheithgor bod pob dioddefwr wedi'u lladd yn anghyfreithlon. Gobaith y Cyngor hwn yw y bydd casgliadau cwest Hillsborough maes o law yn arwain at gyfiawnder o'r diwedd i ddioddefwyr y trychineb hwn.

Rydym yn mynegi ein cefnogaeth i'r rhai a effeithiwyd gan y trychineb ac yn canmol ymdrechion parhaus perthnasau a ffrindiau'r dioddefwyr yn eu brwydr dros gyfiawnder. Rydym yn condemnio ymddygiad papur newydd The Sun a byddwn ni fel Cyngor yn cefnogi unrhyw adwerthwr neu werthwr papurau newydd yn Sir y Fflint sy'n dewis peidio â gwerthu papur newydd The Sun. Rydym yn rhoi ein cefnogaeth i'r ymgyrch “Total Eclipse of The Sun” ar y cyd â chynghorau eraill yng ngogledd orllewin y Deyrnas Unedig.”

Eiliwyd hyn gan y Cyngorydd Kevin Hughes.

I gefnogi eu Cynnig ar y cyd, siaradodd y Cyngorydd Attridge am ddiwyddiadau ofnadwy Hillsborough a arweiniodd at farwolaethau 96 ffan pêl-droed diniwed, oherwydd camreolaeth o'r dyrfa, a sut roedd y trychineb wedi effeithio ar fywydau preswylwyr yn Sir y Fflint. Dywedodd y Cyngorydd Attridge ei fod yn drist cymharu ymddygiad y rhai â swyddi cyfrifol a phobl yn ymddiried ynddynt, â'r teuluoedd hynny a oedd wedi bod yn brwydro dros gyfiawnder wrth ymdopi â cholled eu hanwyliaid. Dywedodd na allai'r Cyngor anwybyddu'r celwyddau a argraffwyd ym mhapur newydd The Sun ar y pryd, neu ei ystyfnigrwydd i argraffu ymddiheuriad i'r teuluoedd, a bod y Cyngor yn cefnogi'r rhai a effeithiwyd gan y trychineb ac yn canmol ymdrechion parhaus perthnasau a

theuluoedd yn eu cais am gyfiawnder. Casglodd y byddai'r Cyngor yn cefnogi unrhyw werthwr papurau newydd a fyddai'n dewis peidio â gwerth The Sun.

Esboniodd y Cynghorydd Kevin Hughes, wrth eilio'r Cynnig yn ffurfiol, mai'r rheswm dros gyflwyno'r Rhybudd o Gynnig oedd bod y cwest yng Ngorffennaf 2016 i drychineb Hillsborough wedi canfod bod 96 o ddiodefswyr wedi'u lladd yn anghyfreithlon. Esboniodd nad oedd y Rhybudd o Gynnig yn ceisio gwaharddiad ar Bapur Newydd The Sun, fel y damcaniaethwyd, ond i gefnogi teuluoedd Sir y Fflint a oedd wedi'u heffeithio gan y trychineb, ac amlinellodd erthygl ddiweddar a oedd wedi bod yn The Sun, y teimlodd nad oedd yn dangos bod gwersi wedi'u dysgu.

Dywedodd y Cynghorydd Neville Phillips, er iddo roi sylwadau ar ddigwyddiadau ofnadwy Hillsborough, nad oedd yn teimlo y gallai gefnogi'r Rhybudd o Gynnig gan fod Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol, yr oedd ef yn Aelod ohoni, yn sefyll dros ryddid ar gyfer unrhyw unigolyn, ac felly teimlodd y byddai'n rhagrithiol cefnogi gwaharddiad o bapur newydd The Sun.

Siaradodd nifer o Aelodau yn erbyn y Cynnig o Rybudd, gan ddatgan eu pryder o dynnu rhyddid pobl i ddewis wrth brynu The Sun. Rhoddodd y Cynghorydd Hilary McGuill sylw ar y baich ariannol a fyddai'n cael ei osod ar werthwyr papurau newydd a fyddai'n penderfynu peidio â gwerthu The Sun, a holodd a fyddai'r Cyngor yn eu had-dalu nhw fel rhan o'r gefnogaeth a amlinellir yn y Rhybudd o Gynnig.

Holodd y Cynghorydd Clive Carver pam fod y Rhybudd o Gynnig a drafodwyd yn wahanol i'r fersiwn a gyhoeddwyd ar y cyfryngau cymdeithasol yn gynharach eleni. Adroddodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) ar y broses i Aelodau gyflwyno Rhybuddion o Gynnig ac esboniodd fod y diwygiadau i'r Rhybudd gwreiddiol wedi'u hawgrymu ganddo ef a'r Prif Weithredwr.

Siaradodd nifer o Aelodau o blaid y Rhybudd o Gynnig, gan nodi'r egwyddorion i gefnogi'r teuluoedd a effeithiwyd gan drychineb Hillsborough. Esboniodd y Cynghorydd Aaron Shotton nad oedd y Cynnig yn ceisio gwneud i werthwyr papurau newydd beidio â chyflenwi/gwerthu The Sun, ond yn cefnogi'r rhai a oedd yn dewis gwneud hynny.

Cynigiodd y Cynghorydd Woolley welliant bod y Cynnig o Rybudd yn darfod wrth "Papur Newydd The Sun" yn ail linell y paragraff olaf. Ni dderbyniwyd y gwelliant hwn gan y Cynghorwyr Attridge a Hughes. Eiliwyd y gwelliant gan y Cynghorydd Richard Jones a ddywedodd ei fod yn cefnogi teimlad y Cynnig ond wedi gorfod cytuno gyda'r sylwadau blaenorol ynghylch tynnu rhyddid pobl ymaith i ddewis.

O'i roi i'r bleidlais, collwyd y gwelliant.

Yn ei hawl i ymateb, dywedodd y Cynghorydd Attridge bod yr ymgyrch 'Total Eclipse of the Sun' wedi cysylltu â phob Cyngor yn gofyn am eu cefnogaeth ac roedd nifer o Gyngorau ar draws y wlad eisoes wedi pasio Cynigion tebyg. Gofynnodd fod pob Aelod yn cefnogi'r Rhybudd o Gynnig fel y dangoswyd yn y Rhaglen a gofynnodd am bleidlais wedi'i chofnodi. Fe wnaeth y nifer ofynnol o Gyngorwyr sefyll o blaid hyn.

Rhodddwyd y cynnig gwreiddiol i'r bleidlais a'i derbyn.

Pleidleisiodd y Cyngorwyr canlynol o blaid y Rhybudd o Gynnig: Bernie Attridge, Glyn Banks, Sean Bibby, Chris Bithell, Helen Brown, Geoff Collett, David Cox, Paul Cunningham, Ron Davies, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Carol Ellis, David Evans, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Cindy Hinds, Dave Hughes, Kevin Hughes, Ray Hughes, Joe Johnson, Paul Johnson, Christine Jones, Mike Lowe, Dave Mackie, Billy Mullin, Ted Palmer, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Martin White, David Williams a David Wisinger.

Pleidleisiodd y Cyngorwyr canlynol yn erbyn y Rhybudd o Gynnig: Clive Carver, Bob Connah, Chris Dolphin, Neville Phillips, Tony Sharps ac Owen Thomas.

Fe wnaeth y Cyngorwyr canlynol ymatal rhag pleidleisio ar y Rhybudd o Gynnig: Mike Allport, Sian Braun, Jean Davies, Rob Davies, Adele Davies-Cooke, Rosetta Dolphin, Mared Eastwood, Veronica Gay, Patrick Heesom, Andrew Holgate, Dennis Hutchinson, Rita Johnson, Richard Jones, Tudor Jones, Colin Legg, Brian Lloyd, Hilary McGuill a Mike Peers.

(ii) Y Cynghorydd Clive Carver

"Mae'r Cyngor hwn yn difrio Llywodraeth Cymru am hyrwyddo adeiladu mwy o dai, drwy beidio â sicrhau ar yr un pryd bod gan GIG Cymru ddigon o feddygfeydd i ymdopi â'r boblogaeth bresennol, heb sôn am gynnydd mewn poblogaeth a ddaw yn sgil y tai hyn."

Wrth siarad am ei Rybudd o Gynnig, rhoddodd y Cynghorydd Carver sylw ar ofyniad gan Lywodraeth Cymru i'r Cyngor gael cyflenwad o dir ar gyfer adeiladu a'r gwaith parhaus ar gyhoeddi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) a fyddai'n canolbwyntio ar gyflawni datblygiad cynaliadwy yn y Sir am y 15 mlynedd nesaf. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru angen twf ond nid ydyw'n darparu cyllid digonol i gefnogi hyn drwy GIG Cymru. Amlinellodd achosion lle mae nifer y Meddygon Teulu wedi gostwng, ond bod nifer y cleifion wedi cynyddu oherwydd bod mwy o dai'n cael eu hadeiladu a sut roedd hyn yn cael ei ailadrodd ar draws y Sir.

Cynigiodd y Cynghorydd Peers welliant i'r Rhybudd o Gynnig i ddisodli'r geiriau 'i ymdopi â'r boblogaeth bresennol' gyda 'ar gyfer y capasiti i

ymdopi â'r boblogaeth bresennol'. Eiliwyd y gwelliant hwn gan y Cyngorydd Veronica Gay a siaradodd o blaid y Rhybudd o Gynnig, yn seiliedig ar y diffyg cyfredol o gyfleusterau yn y ward a gynrychiolwyd ganddi.

Dywedodd y Cyngorydd Heesom na allai gefnogi'r Rhybudd o Gynnig oherwydd prinder y tai yn y Sir a dywedodd am yr angen i barhau i adeiladu cartrefi gyda'r isadeiledd digonol.

Siaradodd nifer o Gynghorwyr o blaid y gwelliant, gan nodi'r anawsterau wrth gael apwyntiadau Meddyg Teulu, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig o'r Sir. Siaradodd y Cyngorydd Chris Bithell am yr angen am gynnydd yn y cyflenwad o dai a hefyd prinder y Meddygon Teulu cymwys, a oedd yn broblem ledled y sir.

Siaradodd y Cyngorydd Aaron Shotton o blaid y gwelliant ond rhoddodd rybudd o welliant pellach.

Siaradodd y Cyngorydd Richard Jones o blaid y gwelliant a dywedodd fod gan breswylwyr yr hawl i gael gwasanaethau. Nid oedd yn deall pam bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud penderfyniad ar bolisi cynllunio TAN1, a deimlodd oedd yn creu problem, a dywedodd pe bai tai'n parhau i gael eu hadeiladu, byddai gwasanaethau'n cael eu glastwreiddio. Cytunodd fod angen tai, ond ochr yn ochr â hynny, bod angen ystyried gwasanaethau addas.

Mewn ymateb i sylwadau am y CDLI, esboniodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod y Cyngor wedi holi datblygwyr a oedd ganddynt unrhyw safle roedd am iddynt eu cynnwys yn y CDLI. Fe wnaeth y Cyngor asesu'r safleoedd hynny a gafodd eu hadrodd wedyn i'r Grŵp Strategaeth Cynllunio a oedd yn gyfarfod preifat. Byddai'r dogfennau hyn yn dod yn gyhoeddus ar y cam priodol. Fe'i cynlluniwyd ar gyfer pob gwasanaeth cyhoeddus sy'n ofynnol ac fe wnaeth y tîm Cynllunio ymgysylltu â GIG Cymru i gynllunio ar gyfer lefelau disgwylidig o dwf.

O'i roi i'r bleidlais, derbyniwyd y gwelliant. Y cynnig terfynol nawr oedd "Mae'r Cyngor hwn yn difrio Llywodraeth Cymru am hyrwyddo adeiladu mwy o dai, drwy beidio â sicrhau ar yr un pryd bod gan GIG Cymru ddigon o feddygfeydd â'r capasiti i ymdopi â'r boblogaeth bresennol, heb sôn am gynnydd mewn poblogaeth a ddaw yn sgil y tai hyn."

Derbyniodd y Cyngorydd Shotton welliant pellach bod y geiriad canlynol yn cael ei ychwanegu ar ddechrau'r Rhybudd o Gynnig:-

"Mae'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod digon o gyllid ar y gweill i fynd i'r afael â chapasiti Meddygon Teulu lleol, oherwydd y gofyniad gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo ymhellach".

Roedd y Rhybudd o Gynnig a oedd yn weddill am aros yr un fath, yn dilyn dileu'r geiriad "Mae'r Cyngor hwn yn difrio Llywodraeth Cymru am hyrwyddo'.

Wrth siarad am y gwelliant, dywedodd y Cynghorydd Shotton na ddylai'r Cyngor ddifrio Llywodraeth Cymru. Cydnabu fod angen mwy o Feddygon Teulu ac am y cydbwysedd a oedd ei angen. Heb yr adnoddau o gyllid i GIG Cymru, ni fyddai newid. Roedd angen cyllid digonol i ddechrau gan Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru i sicrhau bod digon o Feddygon Teulu i fodloni'r angen.

Roedd y Cynghorydd Carver yn teimlo y dylid cadw'r gair "difrio" oherwydd bod GIG Cymru'n defnyddio cyllid ar gyfer prosiectau eraill ac nid yn ddigonol i'r GIG. Dywedodd y Cynghorydd Ellis fod cynnydd yn nifer y tai a adeiladwyd hefyd yn cael effaith andwyol ar ysbytai ac awgrymodd bod angen adolygu iechyd a gofal cymdeithasol ar draws Cymru.

O'i roi i'r bleidlais, derbyniwyd y gwelliant, fel y cylchredwyd gan y Cynghorydd Aaron Shotton, yn cynnwys y gwelliant llwyddiannus gan y Cynghorydd Peers, fel y darllenwyd gan y Prif Swyddog (Llywodraethu) er eglurdeb.

Gofynnodd y Cynghorydd Carver am bleidlais wedi'i chofnodi ond ni chafodd ei chefnogi gan nifer ofynnol yr Aelodau.

O'i roi i'r bleidlais, daeth y gwelliant yn gynnig terfynol, ac fe'i derbyniwyd.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Attridge a Kevin Hughes yn cael ei gefnogi fel a ganlyn: "O ganlyniad i'r trychineb yn Stadiwm Hillsborough yn Sheffield 15 Ebrill 1989, bu farw 96 o bobl ddiniwed a adawodd eu cartrefi'r bore hwnnw i wyllo gêm pêl-droed. Oherwydd bod y dyrfa wedi'i chamreoli, collodd y ffans hynny, a oedd rhwng 10 a 67 oed, eu bywydau. Fe wnaeth y trychineb hwn effeithio'n uniongyrchol ar deuluoedd yn Sir y Fflint. Mae'n drist cymharu ymddygiad y rhai hynny a oedd mewn swyddi cyfrifol a'r cyhoedd yn ymddiried ynddynt, gyda'r urddas a'r dewrder a ddangoswyd gan deuluoedd y 96, sydd wedi parhau ers 1989 i frwydro dros gyfiawnder wrth ymdopi gyda cholled eu hanwyliaid. Ni all y Cyngor anwybyddu'r boen a'r trallod a achoswyd gan y celwyddau a'r sylwadau dirmygus a argraffwyd yn The Sun ar y pryd - yn enwedig i deuluoedd y 96 a fu farw. Ni allwn ychwaith anwybyddu'r modd y bu i The Sun fod yn ystyfnig a gwrthod ymddiheuro'n iawn am y boen a achosodd, nes y daeth yn amlwg i'r papur newydd fod barn y cyhoedd yn gofyn am ymddiheuriad o'r fath. 26 Ebrill 2016, dyfarnodd y rheithgor bod pob dioddefwr wedi'u lladd yn anghyfreithlon. Gobaiith y Cyngor hwn yw y bydd casgliadau cwest Hillsborough maes o law yn arwain at gyfiawnder o'r diwedd i ddioddefwyr y trychineb hwn. Rydym yn mynegi ein cefnogaeth i'r rhai a effeithiwyd gan y trychineb ac yn canmol ymdrechion parhaus perthnasau a ffrindiau'r dioddefwyr yn eu brwydr dros gyfiawnder.

Rydym yn condemnio ymddygiad papur newydd The Sun a byddwn ni fel Cyngor yn cefnogi unrhyw adwerthwr neu werthwr papurau newydd yn Sir y Fflint sy'n dewis peidio â gwerthu papur newydd The Sun. Rydym yn rhoi ein cefnogaeth i'r ymgyrch "Total Eclipse of The Sun" ar y cyd â chynghorau eraill yng ngogledd orllewin y Deyrnas Unedig."; a

- (b) Bod y gwelliant i'r Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Carver fel y'i cyflwynwyd gan y Cynghorydd Aaron Shotton, yn cynnwys y gwelliant llwyddiannus gan y Cynghorydd Peers, yn cael ei gefnogi fel a ganlyn: "Bod y Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cyllid digonol ar y gweill i fynd i'r afael â chapasiti Meddygon Teulu lleol, oherwydd y gofyniad gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo ymhellach y gwaith o adeiladu mwy o dai, wrth beidio â sicrhau ar yr un pryd bod gan GIG Cymru ddigon o feddygfeydd Meddygon Teulu neu'r capasiti i ymdopi â'r boblogaeth bresennol, heb sôn am gynnydd yn y boblogaeth a ddaw yn sgil y tai hyn."

37. CYNLLUN Y CYNGOR 2017-23

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad ar Gynllun y Cyngor 2017-23. Roedd y Cynllun wedi'i adolygu a'i ddiweddarau i adlewyrchu blaenoriaethau allweddol y Cyngor am y tymor o 5 mlynedd o dan y weinyddiaeth a oedd newydd ei hethol.

Roedd gan y Cynllun chwe blaenoriaeth gydag is-flaenoriaethau, gyda'r chwe blaenoriaeth â golwg tymor hir ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Roedd y Cynllun wedi'i gyflwyno i'r chwe Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, gyda phedwar ohonynt yn cefnogi heb sylwadau, a dau yn cefnogi'r Cynllun ond gyda sylwadau penodol a gyflwynwyd i'r Cabinet. Roedd copi o'r gwelliannau i'r Cynllun, a argymhellwyd i'r Cabinet, wedi'u cylchredeg i'r holl Aelodau cyn dechrau'r cyfarfod.

Diolchodd y Cynghorydd Aaron Shotton i bob Aelod a gyfrannodd at y Cynllun, gan gynnwys y sylwadau a wnaed yn y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Roedd sylwadau adeiladol gan y Pwyllgorau hynny wedi'u derbyn gan y Cabinet yn gynharach yn y dydd a bellach wedi'u hargymhell i'r Cyngor. Dywedodd mai'r chwe blaenoriaeth allweddol oedd y blaenoriaethau allweddol yn seiliedig ar faterion cymdeithasol a oedd yn uchel ar raglen y weinyddiaeth. Ar adeg o galedi ariannol, roedd yn bwysig canolbwyntio ar y blaenoriaethau.

Rhoddodd y Cynghorydd Richard Jones sylw ar y gwelliant cyntaf o amgylch 'Cyngor Uchelgeisiol' a dywedodd, yn ystod cyfarfod Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol, nad oedd wedi sôn am unrhyw dref benodol ac wedi gofyn bod "yn arbennig ar gyfer defnydd preswyl" yn cael ei dynnu oddi yno, a gefnogwyd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Teimlai y byddai datblygwyr yn defnyddio'r ddogfen lefel uchel hon i wneud canol trefi'n dameidiog er mwyn darparu ardaloedd preswyl, a gofynnodd am dynnu'r geiriau hyn oddi yno.

Rhoddodd y Cynghorydd Jones sylw hefyd ar ddatblygu strategaethau cludiant rhanbarthol a lleol a cheisiodd sicrhau gwariant teg ar draws trefi ac nid Glannau Dyfrdwy yn unig. Roedd eisiau cynllun a oedd yn anfon datblygiad economaidd pob tref ymlaen, a holodd pam nad oedd yr argymhellion o amgylch hyn a gyflwynwyd o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi'u cyflwyno. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y

geiriad wedi ei wella, ar y pwynt cyntaf, i ddadbwysleisio tai; yn ysbryd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol roedd y geiriad yn awgrymu datblygiad aml-ddefnydd o ganol trefi i gefnogi eu hyfywedd. Ar yr ail bwynt, bu trafodaeth ar ddyrannu adnoddau'n deg ar draws canol trefi, ac fel y nodwyd yn ystod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol, nid oedd yn bosibl bod yn gydradd gan fod llawer o'r cyllid a dderbynnir yn aml yn dod o ffynonellau'r llywodraeth ac wedi eu targedu tuag at ardaloedd gyda nodweddion penodol fel amddifadedd.

Eglurodd y Cynghorydd Attridge bod y flaenoriaeth i ddatblygu dull wedi'i adnewyddu i gefnogi canol trefi a'r geiriad penodol o amgylch 'defnydd preswyl' yn ymwneud â gwelliannau i eiddo uwchben siopau yng nghanol trefi. Ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai polisi cynllunio a'r Cynllun Datblygu Lleol yn darparu'r dulliau diogelu.

Rhoddodd y Cynghorydd Peers sylw ar dudalen 34 ar ddatblygu anghenion twf tai'r Cyngor, a holodd sut y daethpwyd i'r ffigur o 50 cartref a sut roedd yn ymwneud â'r galw. Ar y ddogfen mesurau a cherrig milltir, ni allai weld y garreg filltir o lwyddiant yn gysylltiedig â'r cynllun gweithredu ar gyfer datblygu tai cyngor a gofynnodd a oedd modd edrych ar hyn. Ar dudalen 38, gofal preswyl a chynlluniau ar gyfer 2017/18 a sicrhau darpariaeth gofal cartref, holodd a oedd modd ychwanegu'r gair 'fforddiadwy' neu a oedd hyn y tu hwnt i reolaeth y Cyngor. Ar dudalen 39, rhoddodd sylw ar y risgiau i'w rheoli yn y Cynllun, yn enwedig y risgiau i ddarparu gofal cymdeithasol a oedd yn annigonol, a holodd a oedd cynllun gweithredu lliniaru, pe bai cyflenwad yn rhagori ar y galw. Ar dudalen 40, Gwasanaethau Iechyd Cymdeithasol Cymunedol Integredig a gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a holodd a oedd modd cynnwys Ysbyty Iarllles Caer yn y cynllun 5 mlynedd.

Ymatebodd y Prif Weithredwr y gallai'r Cynllun gynnwys dim ond dyheadau lle roedd gan y Cyngor level uchel o reolaeth drosto yn unig, ac felly nid oedd modd ychwanegu blaenoriaethau o amgylch gofal eilaidd ac ysbytai at y Cynllun, ac roedd hyn hefyd yn gymwys i'r awgrym o amgylch cynnwys y gair 'fforddiadwy' o fewn darparu cartrefi gofal. Gallai trafodaeth bellach ar sut roedd risgiau o amgylch gofal cymdeithasol yn cael eu rheoli ddiwydd y tu allan i'r cyfarfod.

Esboniodd y Prif Swyddog (Cymuned a Menter) fod y ffigur o 50 cartref wedi'i argymhell yn dilyn yr asesiad marchnad dai leol a nododd y lefel ofynnol o dai cymdeithasol, fforddiadwy. Roedd y ffigurau'n seiliedig ar waith manwl o amgylch beth y gellid ei ddarparu dros y 12 mis nesaf, yn cynnwys, y cap ar fenthycia a oedd ar gael drwy'r Cyfrif Refeniw Tai, ceisiadau cynlluniau hysbys y cytunwyd arnynt, a chyllid cyfalaf ar gael drwy Lywodraeth Cymru. Roedd bwch rhwng anghenion tai a beth allai'r Cyngor ei ddarparu, felly roedd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i gyflwyno dadl gref dros godi cap ar fenthycia'r Cyfrif Refeniw Tai.

O'i roi i'r bleidlais, derbyniwyd y cynllun, yn cynnwys y sylwadau y'i diwygiwyd gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a'r Cabinet.

PENDERFYNWYD:

Bod Cynllun y Cyngor 2017-23 yn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor Sir i'w gyhoeddi'n derfynol erbyn diwedd Medi.

38. DATGANIAD CYFRIFON

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad ar Ddatganiad Cyfrifon 2016/17 a'r Wybodaeth Ariannol Atodol i'r Datganiad Cyfrifon 2016/17.

Esboniodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod yr adroddiad wedi ceisio cymeradwyaeth ffurfiol o Ddatganiad Cyfrifon 2016/17 a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, gyda chopi wedi'i gynnwys gyda'r adroddiad ac a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio ym Mehefin 2017. Hefyd yn yr adroddiad, cafwyd yr wybodaeth atodol i'r cyfrifon ar y cyflog cyfwerth â llawn amser, ar gais yr Aelodau mewn cyfarfod blaenorol, fel Rhybudd o Gynnig i'r Cyngor.

Dywedodd Matthew Edwards, Swyddfa Archwilio Cymru, ei fod yn hapus i roi gwybod bod yr adroddiadau'n gadarnhaol ac yn dilyn cymeradwyo Datganiad Cyfrifon 2016/17, roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cynnig barn ddiamod ar y datganiadau ariannol a fyddai'n cadarnhau bod y cyfrifon yn cynnig safbwynt teg a gwir ym mhob ystyr materol, a'u bod wedi paratoi yn unol â Chod Ymarfer CIPFA. Rhoddodd sylwadau hefyd ar ansawdd uchel y datganiadau fel y cawsant eu cyflwyno.

Nid oedd y Cyfrifon Cronfa Bensiwn o'r un safon uchel ag a ddangoswyd yn flaenorol, ond rhoddwyd sicrwydd bod trefniadau yn eu lle i roi sylw i hyn yn y dyfodol.

Dywedodd y Cynghorydd Clive Carver ei fod wedi ymholi ynghylch taliadau a wnaed i ymgynghorwyr ac uwch swyddogion. Ers y Rhybudd o Gynnig i'r Cyngor, roedd yr wybodaeth hon wedi'i chynnwys fel dogfen atodol. Eleni, nid oedd yn cynnwys yr un faint o wybodaeth ac roedd nawr wedi'i chynnwys yn y prif adroddiad. Esboniodd y Prif Weithredwr y gellid cynnwys yr holl wybodaeth mewn un adroddiad ac roedd y cyfan wedi'i gyflwyno. Eglurodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol nad oedd yr wybodaeth yn ffurfio rhan o'r cyfrifon ffurfiol ond roedd yn cael ei darparu er gwybodaeth i Aelodau.

Holodd y Cynghorydd Mike Peers pam fod gan y Gwasanaethau Landlordiaid orwariant o £66,000 a pham fod prosiectau'r Cyfrifon Refeniw Tai â chyllideb o 0 ond bod £111,000 wedi'i wario. Holodd hefyd pam y gwariwyd mwy i dalu am wariant, a holodd beth oedd yr ad-daliadau misol ar y lefel fenthycyca a oedd yn £251m. Rhoddodd sylwadau ar y gostyngiad ymddangosiadol mewn cronfeydd wrth gefn, a holodd am ragor o wybodaeth am hyn, a holodd hefyd sut roedd dyledion drwg yn cael sylw. Awgrymodd y Prif Weithredwr, gan nad oedd y cwestiynau'n effeithio ar ddilysrwydd y cyfrifon, y gellid rhoi ymatebion ysgrifenedig os oedd hynny'n dderbyniol, gyda'r Cynghorydd Peers yn ateb ei fod yn dderbyniol. Cadarnhawyd y byddai copi o'r ymateb yn cael ei roi i bob Aelod.

Rhoddodd y Cynghorydd Richard Jones sylw ar y benthyciad a oedd yn weddill o £860,000 gan Lywodraeth Cymru ar gyfer mentrau adfywio yng Nglannau Dyfrdwy, a holodd pa mor hir oedd y telerau ad-dalu ar y benthyciad hwn. Holodd hefyd am fwy o wybodaeth am werth net y Cyngor, a oedd wedi gostwng £168m i £43m. Ymatebodd y Rheolwr Cyllid, Strategaeth a Thechnegol, bod y telerau ad-dalu ar y benthyciad yn 15 mlynedd. Byddai ymateb ysgrifenedig ar werth net y Cyngor yn cael ei roi i bob Aelod yn dilyn y cyfarfod.

Dywedodd y Cynghorydd Helen Brown fod y Pwyllgor Archwilio wedi cael cyflwyniad manwl gan swyddogion ar y datganiad cyfrifon, a oedd yn rhoi cynnydd da, a dywedodd fod swyddogion o Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi mynychu'r cyfarfod i amlinellu eu canfyddiadau. Cadarnhaodd y Cynghorydd Brown nad oedd gan y Pwyllgor unrhyw faterion yr oedd angen tynnu sylw'r Cyngor atynt, ac amlinellodd yr argymhellion gan y Pwyllgor Archwilio.

Ar ôl ei roi i bleidlais, cymeradwywyd yr argymhellion.

PENDERFYNWYD:

- (a) Cymeradwyo fersiwn terfynol Datganiad Cyfrifon 2016/17;
- (b) Cymeradwyo'r Llythyr Sylwadau – Cyngor Sir y Fflint; a Llythyr Sylwadau – Cronfa Bensiynau Clwyd; a
- (c) Nodi'r Wybodaeth Ariannol Atodol i Ddatganiad Cyfrifon 2016/17.

39. ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2016/17

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2016/17. Roedd yr Adroddiad Blynyddol wedi dod i law gan y Pwyllgor Archwilio 19 Gorffennaf 2017 a'r Cabinet 26 Medi 2017.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2016/17.

40. PAPUR YMGYNGHORI LLYWODRAETH CYMRU DIWYGIAD ETHOLIADOL MEWN LLYWODRAETH LEOL YNG NGHYMRU

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad ar Bapur Ymgynghori Llywodraeth Cymru *Diwygiad Etholiadol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru*.

Rhoddodd sylwadau ar y meysydd a gwmpaswyd yn y papur ymgynghori ar:

- Yr hawl i bleidleisio;
- Cofrestru;
- Y system bleidleisio;
- Y broses bleidleisio;
- Sefyll mewn etholiad; a
- Swyddogion Canlyniadau

Rhoddodd y Cynghorydd Hilary McGuill sylw ar y cynnig i gael gwared ar gyfeiriad yr ymgeiswyr. Dywedodd y Prif Weithredwr y gallai Aelodau ddatgelu ym mha ward maent yn byw o'i gymharu â'u cyfeiriad pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, ac y byddai'n awgrymu fod hyn yn dod yn weithredol o ran y gwasgnod statudol ar gyfer deunyddiau wedi eu cyhoeddi pe bai'r ymgeisydd yn hunan hyrwyddo eu hunain heb hyrwyddwr ar wahân.

Gofynnodd y Cyngorydd Mike Peers am eglurhad ar dudalen 344, Pleidlais Sengl Drosoglwyddadwy, a'i bod yn system etholiadol ffafraethol, a holodd a oedd modd cadarnhau hyn. Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod hyn yn golygu bod y dewis cyntaf a'r ail ddewis yn cael ei ddynodi gan yr etholydd. Roedd y Cyngor yn cael ei gynghori i wrthwynebu datganoli'r dewis o ran y system bleidleisio i gynghorau unigol, ac nid yr egwyddor o'r system bleidleisio.

Ar ôl ei roi i bleidlais, cymeradwywyd yr argymhelliad. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr, byddai copi ar gael ar ôl i'r ymateb gael ei gwblhau.

PENDERFYNWYD:

Gwneud yr ymateb arfaethedig i'r papur ymgynghori.

41. DEDDF YR UNDEBAU LLAFUR (CYMRU)

PENDERFYNWYD:

Gohirio'r eitem hon tan y cyfarfod nesaf a drefnwyd ar gyfer 24 Hydref, 2017.

42. AILBENODI CYNRYCHIOLWYR CYNGOR TREF A CHYMUNED I'R PWYLLGOR SAFONAU

PENDERFYNWYD:

Gohirio'r eitem hon tan y cyfarfod nesaf a drefnwyd ar gyfer 24 Hydref, 2017.

43. PENODIADAU I GYRFF ALLANOL

PENDERFYNWYD:

Gohirio'r eitem hon tan y cyfarfod nesaf a drefnwyd ar gyfer 24 Hydref, 2017.

26. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00yp a gorffennodd am 5.40yp)

.....
Cadeirydd